

## Statws TB buchesi a chyfyngiadau symud

Er mwyn cael symud a phrynu a gwerthu gwartheg, rhaid i fuchesi fod yn ddi-haint ac â Statws heb TB Swyddogol.

### Cyfyngiadau

Yng Nghymru, mewn buchesi â Statws heb TB Swyddogol (OTF), mae profion TB yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob blwyddyn gan ddefnyddio'r "prawf croen" neu brawf SICCT (*Single Intra-dermal Comparative Cervical Test*). Mae hyn yn rhan bwysig iawn o'r gwaith o gadw golwg ar TB. Y nod yw rhoi cadarnhad pendant bod buches yn ddi-glefyd a bod y gwartheg yn gallu cael eu gwerthu.

Bydd buches yn colli statws OTF pan gaiff cyfyngiadau symud eu rhoi ar y fuches am unrhyw rai o'r rhesymau canlynol:

- Pan fydd anifail yn cael adwaith neu adwaith amhendant (IR) i'r prawf croen.
- Pan amheuir bod gan anifail TB, naill ai fel achos clinigol wrth archwilio'r carcass mewn lladd-dy, neu yn ystod archwiliad post-mortem.
- Pan fydd anifail yn cael canlyniad positif i brawf gama interfferon\* neu IDEXX\* pan gaiff mesurau cadw golwg ychwanegol eu cynnal mewn buchesi sydd wedi cael canlyniad clir i'r prawf croen mewn ardaloedd penodedig yn y Gogledd.
- Mae prawf croen yn hwyr.

\*Profion gwaed yw'r profion gama interfferon (y "prawf gama") ac IDEXX a ddefnyddir i ategu'r prawf croen i ddarganfod anifeiliaid sydd â TB na wnaeth y prawf croen eu dangos.

Pan fydd cyfyngiadau symud yn cael eu rhoi ar fuches:

- Ni chewch symud anifail i'r fuches nag allan ohoni heb drwydded gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).
- Caiff gwartheg fynd o dan drwydded o'r fuches yn syth i ladd-dy, i Grynhoed Lladd Cymeradwy, Uned Besgi Gymeradwy (AFU), AFUE yn Lloegr, Arwerthiant Arbennig TB ("Marchnad Oren"), Uned Ynysu TB, neu i ddaliad arall dan gyfyngiadau TB. Dim ond ar ôl asesiad risg ffafriol y caiff y trwyddedau sy'n caniatáu'r symudiadau hyn eu cymeradwyo.
- Ni chewch ddod â stoc newydd i'r fuches nes bod eich holl wartheg wedi cael un prawf croen clir neu fwy. O dan amgylchiadau penodol e.e. achosion mewn lladd-dy, efallai y bydd angen cynnal Prawf Cadarnhau (CT) ar unwaith ar y fuches gyfan a phrawf croen arall.
- Bydd APHA yn rhoi hysbysiad yn gofyn i chi ynysu anifeiliaid os oes lle i gredu eu bod yn achosion clinigol neu sydd wedi cael adwaith neu adwaith amhendant i'r prawf croen, wedi cael canlyniad positif i brawf gama a/neu IDEXX, neu sydd wedi'u nodi fel Cysylltiadau Uniongyrchol (anifeiliaid risg uwch), hynny cyn eu symud o'r fuches.

Mae cyfyngiadau symud yn lleihau'r risg o ledaenu TB o fewn buchesi a rhwng buchesi. Pan fydd buches yn cael ei rhoi o dan gyfyngiadau symud, bydd rhaid cynnal mwy o brofion tan y bydd wedi cael y canlyniadau negyddol neu glir sydd eu hangen.

Os bydd prawf yn hwyr, bydd yn rhaid cynnal prawf ar yr holl anifeiliaid cymwys cyn y caiff y cyfyngiadau symud eu codi.

## Statws

Mae gan fuchesi Cymru un o dri statws TB:

- **Statws heb TB Swyddogol (OTF)**
- **Statws heb TB Swyddogol wedi'i atal (OTFS)**
- **Statws heb TB Swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW).**

### Statws heb TB swyddogol

Mae buchesi'n cael y Statws heb TB Swyddogol (OTF) os ydy'r profion TB i gyd yn glir. Cewch brynu a gwerthu gwartheg cyn belled â bod y profion gofynnol wedi'u cynnal a bod y profion hynny yn dangos nad oes clefyd ar eich gwartheg.

### Statws heb TB Swyddogol wedi'i Atal

O 17 Ionawr 2022, bydd pob achos newydd o TB yng Nghymru, heblaw am y ddau eithriad isod, yn rhoi'r Statws heb TB Swyddogol wedi'i Ddiddymu (OTFW) i fuches. Yr unig ddau eithriad, a fydd yn dal i gael eu galw'n OTFS yw

- buchesi OTF ond bod lle i gredu bod yna un neu fwy o achosion mewn lladd-dy a'ch bod yn dal i aros am ganlyniad labordy. Fel arfer, bydd angen cynnal Prawf Cadarnhau croen ar y fuches gyfan a chyn belled â bod y prawf hwn yn glir a bod y prawf labordy neu PCR yn negyddol, gellir codi'r cyfyngiadau symud (gweler OTFW isod).
- Mewn uned ofodol \*\* neu glwstwr penodol yn y Gogledd, os bydd yna ganlyniad positif i brawf gama a/neu IDEXX (h.y. dim un adwaith i brawf croen) mewn buches lle mae yna wartheg gafodd eu geni mewn buches arall ac nad oes achos o'r clefyd wedi'i gadarnhau mewn archwiliad post-mortem nac mewn meithriniaid mewn labordy gafodd ei greu yn benodol i dyfu'r organeb, dim ond un prawf croen clir trwy ddehongliad safonol fydd ei angen i gael codi'r cyfyngiadau symud (geler OTFW isod).

Os caiff cyfyngiadau symud eu gosod ar fuches am fod y prawf croen yn hwyr, caiff ei hystyried yn fuches OTFS hefyd tan y caiff y profion eu cynnal

*Pwysig:* Bydd pob buches sydd â statws OTFS a gafodd achos o TB a ddechreuodd cyn 17 Ionawr 2022 yn cael cadw ei statws OTFS oni bydd anifail yn cael adwaith i brawf croen wedi hynny neu os gwelir bod risgiau epidemiolegol penodol eraill.

\*\* Mae Cymru wedi'i rhannu'n ardaloedd sy'n cynnwys plwyfi cyfan. Ein henw ni ar yrdaloedd hyn yw unedau gofodol. Mae 225 o ddaliadau ymhob uned ofodol ac mae gan bob un ei rhif e.e. CL7 yw Clwyd 7.

### Statws heb TB swyddogol wedi'i Ddiddymu

O 17 Ionawr 2022, bydd pob achos newydd o TB yng Nghymru yn sgil adwaith neu ddau adwaith amhendant i brawf croen yn cael statws Statws heb TB swyddogol wedi'i Ddiddymu (OTFW).

Bydd achosion fydd yn dal i gael eu hystyried yn OTFS (fel a ddisgrifir uchod) yn dod yn OTFW:

- pan fydd un neu fwy o anifeiliaid yn cael adwaith i brawf croen wedi hynny (neu ddau adwaith amhendant)
- bod prawf labordy'n cadarnhau achos mewn lladd-dy
- os gwelir briwiau mewn archwiliad post mortem neu os yw canlyniadau

- labordy yn bositif mewn achosion lle mae anifeiliaid gafodd eu geni mewn buches arall wedi cael canlyniad positif i brawf gama a/neu IDEXX yn unig
- bydd arweinydd milfeddygol yng Nghymru yn cael categoreiddio buches OTFS yn fuches OTFW o dan amgylchiadau eithriadol

Pan roddir statws OTFW i fuches, caiff mesurau ychwanegol eu cymryd i leihau'r risg y gall anifeiliaid sydd wedi'u heintio ledaenu'r haint:

- Caiff gwartheg sydd wedi'u symud o'r fuches lle cafwyd achos o TB eu holrhain a'u profi os oes angen
- Caiff profion eu cynnal ar fuchesi cymdogion os gwelir bod angen
- Gellir ystyried anfon anifeiliaid sydd mewn perygl o gael eu heintio i'r lladddy fel Cysylltiadau Uniongyrchol
- Gellid ystyried lladd gweddill yr anifeiliaid yn y grŵp neu'r fuches os ydy'r heintiad yn un difrifol neu eang.

Mewn buches sydd â statws OTFW, cynhelir profion dilynol arni nes ein bod yn hollol sicr nad yw'r clefyd yn bresennol mwyach. Ar gyfer buchesi sydd â statws OTFW, rhaid cael dau brawf TB clir o'r bron gyda bwlch o o leiaf 60 diwrnod rhwng y ddau, gan ddefnyddio'r dehongliad llym ar gyfer o leiaf un o'r profion hyn, cyn y gellir rhoi'r statws OTF yn ôl iddi a chodi'r cyfyngiadau symud.

### **Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybod beth fydd yn digwydd os gwelir bod TB yn eich buches, ewch i [gov.uk](http://gov.uk).